# Y Pwyllgor Menter, Arloesi a Rhwydweithio

## Cofnodion EIN(2) 07-06

### Dyddiad y cyfarfod: 5 Hydref 2006
### Amser y cyfarfod: 9.00 – 12.00
### Lleoliad y cyfarfod: Ystafell Bwyllgor 2, Senedd, Bae Caerdydd

#### Aelodau'r Cynulliad yn Bresennol

| **Aelodau o'r Cynulliad** | **Etholaeth** |
|---|---|
| Christine Gwyther (Cadeirydd) | Gorllewin Caerfyrddin a De Penfro |
| Leighton Andrews | Rhondda |
| Janet Davies | De Orllewin Cymru |
| Alun Ffred Jones | Caernarfon |
| Carl Sargeant | Alun a Glannau Dyfrdwy |
| Kirsty Williams | Sir Frycheiniog a Maesyfed |

#### Swyddogion wrth law

| **Enw** | **Teitl y Swydd** |
|---|---|
| Gareth Hall | Cyfarwyddwr, Menter, Arloesi a Rhwydweithiau |
| Tracey Burke | Cyfarwyddwr, Strategaeth ac Adolygu |
| Tim James | Pennaeth yr Uned Reilffordd |
| Cathy Presland | Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru |
| Bob Waller | Pennaeth Gweithredol yr Is-adran Polisi Sgiliau |
| Colin Eaketts | Yr Is-adran Cynllunio a Gweinyddu Trafnidiaeth |
| Ian Jones | Yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol |

#### Eraill yn bresennol

| Enw | Sefydliad |
|---|---|
| Linda Badman | Canolfan Byd Gwaith |
| Hayley Dunne | Chwarae Teg |
| Betsan Caldwell | Cymdeithas Trafnidiaeth Gymunedol |
| Ewan Jones | Cymdeithas Trafnidiaeth Gymunedol |
| Dr Griff Jones | Cymdeithas Feddygol Prydain |

**Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad**

| Enw | Teitl y Swydd |
|---|---|
| Claire Morris | Clerc |
| Abigail Phillips | Dirprwy Glerc |

**Eitem 1: Ymddiheuriadau, Dirprwyo a Datganiadau o Fuddiant**

1.1 Cafwyd ymddiheuriadau gan Andrew Davies, y Gweinidog dros Fenter, Arloesi a Rhwydweithiau.

1.2 Mae recordiad air am air o'r cyfarfod ar gael.

**Eitem 2: Anweithgarwch Economaidd**
**Papur: EIN(2) 07-06 (p1)- Y Cynnydd Diweddaraf**
**EIN(2) 07-06 (p2)– Canolfan Byd Gwaith**
**EIN(2) 07-06 (p6)– Chwarae Teg**
**EIN(2) 07-06 (p3)– Cymdeithas Trafnidiaeth Cymunedol**
**EIN(2) 07-06 (p4)– Cymdeithas Feddygol Prydain**

2.1 Adolygodd y Pwyllgor y cynnydd a wnaethpwyd hyd yma i weithredu'r argymhellion a wnaethpwyd yn adroddiad y Pwyllgor ar Anweithgarwch Economaidd.

**Pwyntiau Gweithredu:**

- Cytunodd Linda Badman i ddarparu manylion am nifer y bobl a gynorthwyodd trwy'r rhaglen 'Llwybrau i Waith', a'r nifer sy'n dal i hawlio Budd-dal Analluogrwydd.
- Bydd Linda Badman yn darparu ffigurau ynglyn ?ifer y bobl anweithgar yn economaidd sydd ? hroblemau iechyd.
- Bydd Linda Badman yn rhoi manylion am y budd-daliadau newydd ar gyfer pobl sy'n anweithgar yn economaidd .

- Cytunodd Hayley Dunne i ddarparu manylion am nifer y lleoedd gofal plant sydd ar gael yng Nghymru a pha mor fforddiadwy yw’r lleoedd hynny.
- Bydd Hayley Dunne yn darparu copi o’r canllawiau arferion gorau i Awdurdodau
- Rhoddir cadarnhad i’r Pwyllgor ynglyn ?hrafnidiaeth ysgol am ddim i deuluoedd sy’n hawlio Credyd Treth.
- Bydd y Clerc yn drafftio llythyr i Brif Weinidog Cymru yn gofyn iddo gadarnhau pa weinidog sydd ?146;r cyfrifoldeb i arwain ar anweithgarwch economaidd.
- Bydd y Gymdeithas Trafnidiaeth Cymunedol yn darparu copi o’r papur a ddarparwyd i’r Adran Drafnidiaeth ynglyn ?hrafnidiaeth i ysbytai.
- Bydd y clerc yn drafftio nodyn o brif bwyntiau’r arolygiad.
- Bydd y Clerc yn darparu nodyn i ddweud ar sawl achlysur yr edrychodd y Gweinidog dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau ar anweithgarwch economaidd.

**Eitem 3: Ymgynghoriad ynglyn ?146;r Fasnachfraint newydd ar draws y wlad gyfan, Gorllewin Canolbarth Lloegr a Dwyrain Canolbarth Lloegr**
**Papur: EIN(2) 07-06 (p.5)**

3.1 Ystyriodd y Pwyllgor eu hymateb i’r ymgynghori ynglyn ?asnachfraint.

**Camau Gweithredu:**

Bydd y Clerc yn drafftio llythyr yn crynhoi ymateb y Pwyllgor.

## Gwasanaeth y Pwyllgorau